People and Places

Addressing the economic downturn in Wales

During the past 12 months, we have seen the impact the economic downturn has had on communities in Wales.

To help address this, we have set aside an extra £2 million to be allocated in two rounds during the financial years ending 31 March 2010 and 31 March 2011. You can apply for this through our existing People and Places programme for a limited period.

We want the projects that receive this extra funding to revitalise communities by giving people improved access to advice and advocacy services.

What can we fund?

As we have limited funds available we have looked carefully at where this extra money can make a big difference.

We have decided to prioritise Voluntary and Community Sector organisations providing advice services, including (but not limited to) the following:

- income maximisation – benefits advice
- financial literacy
- debt advice
- mental health
- domestic violence.

You must make sure that your project complements existing services and is additional to statutory provision.

You will also need to show how the outcomes that your project will achieve will carry on in the long-term after our funding has ended.

How much can you apply for?

You can apply for up to £50,000 revenue funding over a two-year period, with a maximum of £25,000 per year.

The amount of money you apply for must be enough to achieve your project outcomes.

How to apply?

You must apply under our existing People and Places programme. Your application will be assessed using our published criteria for the programme.

The first step is to send us an Outline Proposal form. Make sure you mark this as a '**Recession Application**' at the top of the first page of the form.

If we feel that your project fits our funding criteria, we will send you an application form to complete and return.

We will aim to tell you our decision by 31 March 2010.

What are the timescales?

We want to fund projects that start to address the impact of the recession as soon as possible, so we have set some deadlines for receiving applications.

For the period until March 2010 these are:

1pm on Friday, 18 September 2009	Deadline for receiving a complete Outline Proposal form, with supporting information.
Friday, 2 October 2009	We aim to respond to all Outline Proposals by this date.
1pm on Friday, 13 November 2009.	Deadline for receipt of completed full applications, with supporting information.
Wednesday 31 March 2010.	We will tell you our decision by this date.

We will publish the timetable for the second round of funding under this initiative in early 2010.

These deadlines do not affect other applications under the People and Places programme.

What happens if you are successful?

You will need to start your project within three months of being awarded a grant.

As with all the projects we support, you will have to comply with our terms and conditions, which include our monitoring and evaluation requirements. So you will need to include information on how your project has addressed the impact of the recession.

Pawb a'i Le

Mynd i'r afael â'r dirywiad economaidd yng Nghymru

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweld yr effaith y mae'r dirywiad economaidd wedi ei gael ar gymunedau Cymru.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, rydym wedi clustnodi £2 filiwn ychwanegol sydd i'w ddyfarnu mewn dau rownd yn ystod y blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar yr 31 Mawrth 2010 a'r 31 Mawrth 2011. Gallwch ymgeisio amdano drwy ein rhaglen bresennol Pawb a'i Le am gyfnod cyfyngedig.

Rydym eisiau i'r prosiectau sy'n derbyn yr arian ychwanegol yma adfywio cymunedau drwy roi gwell mynediad i wasanaethau cynghori ac eirioli i bobl.

Beth allwn ei ariannu?

Gan fod yr arian sydd ar gael yn gyfyngedig rydym wedi edrych ar ble y gall yr arian ychwanegol yma wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Rydym wedi penderfynu rhoi blaenoriaeth i sefydliadau Sector Gwirfoddol a Chymunedol sy'n darparu gwasanaethau cynghori yn cynnwys (ond nid wedi'u cyfyngu i) y canlynol:

- mwyhau incwm – cyngor ar fuddiannau
- llythrennedd ariannol
- cyngor ar ddyled
- iechyd meddwl
- trais yn y cartref

Mae angen i chi sicrhau fod eich prosiect yn ychwanegu at wasanaethau sy'n bodoli eisoes a'i fod yn ychwanegol i'r hyn a'i ddarperir yn statudol.

Bydd hefyd angen i chi ddangos sut mae'r canlyniadau y bydd eich prosiect yn eu cyflawni yn parhau yn yr hir dymor wedi i'n harian ni ddod i ben.

Faint allwch chi ymgeisio amdano?

Gallwch ymgeisio am hyd at £50,000 o ariannu refeniw dros gyfnod o ddwy flynedd, gydag uchafswm o £25,000 y flwyddyn.

Mae'n rhaid i'r swm o arian a wnewch gais amdano fod yn ddigon i gyflawni canlyniadau eich prosiect.

Sut i ymgeisio?

Mae'n rhaid i chi ymgeisio o dan ein rhaglen Pawb a'i Le presennol. Bydd eich cais yn cael ei asesu gan ddefnyddio ein meini prawf sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer y rhaglen.

Y cam cyntaf yw anfon ffurflen Gynnig Amlinellol atom. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ei marcio fel '**Cais Dirwasgiad**' ar frig tudalen gyntaf y ffurflen.

Os teimlwn fod eich prosiect yn cwrdd â'n meini prawf ariannu, byddwn yn anfon ffurflen gais atoch i chi ei chwblhau a'i dychwelyd.

Byddwn yn amcanu i'ch hysbysu o'n penderfyniad erbyn 31 Mawrth 2010.

Beth yw'r amserlen?

Rydym eisiau ariannu prosiectau sy'n cychwyn mynd i'r afael ag effaith y dirwasgiad cyn gynted ag sy'n bosibl, felly rydym wedi gosod rhai terfynau amser ar gyfer derbyn ceisiadau.

Ar gyfer y cyfnod tan Mawrth 2010 y rhain yw:

1pm ar Ddydd Gwener, 18 Medi 2009	Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflen Cynnig Amlinellol cyflawn, gyda gwybodaeth gefnogol.
Dydd Gwener, 2 Hydref 2009	Rydym yn amcanu i ymateb i Gynigion Amlinellol erbyn y dyddiad yma.
1pm ar Ddydd Gwener, 13 Tachwedd 2009.	Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau llawn cyflawn, gyda gwybodaeth gefnogol.
Dydd Mercher 31 Mawrth 2010.	Byddwn yn eich hysbysu o'n penderfyniad erbyn y dyddiad yma.

Byddwn yn cyhoeddi'r amserlen ar gyfer yr ail rownd o ariannu o dan y cynllun yma yn gynnar yn 2010.

Nid yw'r dyddiadau cau yma yn effeithio ar geisiadau eraill o dan y rhaglen Pawb a'i Le.

Beth sy'n digwydd os byddwch yn llwyddiannus?

Bydd angen i chi gychwyn eich prosiect o fewn tri mis o dderbyn y grant.

Fel gyda phob prosiect rydym yn ei gefnogi, bydd angen i chi gydymffurfio gyda'n telerau ac amodau, sy'n cynnwys ein gofynion monitro a gwerthuso. Felly bydd angen i chi gynnwys gwybodaeth ar sut mae eich prosiect wedi mynd i'r afael ag effaith y dirwasgiad.